


ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae sicrhau bod y Gymraeg yn ffynnu hefyd yn un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn ogystal â hynny, mae'n rhwymedigaeth strategol ein bod yn ystyried yn llawn sut mae ein gwaith yn effeithio ar y Gymraeg. Mae hynny'n golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema sy'n berthnasol i'w gilydd yn strategaeth [Cymraeg 2050](#):



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas y gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Fel rheol gyffredinol, os oes posibilrwydd y gall eich polisi effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg ei hunan.

1. Rhif cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (wedi'i gwblhau gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru):

Cod clirio: 06/07/2026

2. A oes cysylltiad clir rhwng y cynnig a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – [Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr](#) a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? [Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021 i 2026 \[HTML\]](#) | [LLYW.CYMRU](#)

Mae'r newidiadau arfaethedig yn gysylltiedig â'r Asesiad canlynol o'r Effaith ar y Gymraeg: [Gwella gwasanaethau mabwysiadu, maethu a gofal gan berthynas: asesiad o'r effaith ar y Gymraeg](#) | [LLYW.CYMRU](#)

Mae'r newidiadau arfaethedig i godau ymarfer Rhan 6 Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n cael eu Lletya a Gwarcheidiaeth Arbennig yn dangos aliniad ystyrlon, os dealledig, â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg*, a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026.

Yn gyntaf, roedd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar y newidiadau'n ddwyieithog, gydag ymrwymiad clir i drin y Gymraeg mewn modd nad yw'n llai ffafriol na'r Saesneg. Roedd y dogfennau ar gael yn Gymraeg, ac mae Llywodraeth Cymru yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Mae hyn yn adlewyrchu'r egwyddor o gydraddoldeb ieithyddol sydd wedi'i hymgorffori yn *Cymraeg 2050*, ac mae'n sicrhau y gall rhanddeiliaid Cymraeg eu hiaith gymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori.

Mae'r cynigion hefyd yn ystyried *Mwy na geiriau*, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i gryfhau gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

O ran y cynigion eu hunain, mae sawl maes yn darparu cyfleoedd i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn ymarferol:

Mae'r cynigion sy'n ymwneud â threfniadau mabwysiadu, gan gynnwys alinio fframweithiau mabwysiadu a chynllunio gofal yn fwy effeithiol, ac ymgorffori Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru, yn gyfle pwysig i sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu hystyried yn ystod y camau cynharaf yn y broses cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae hynny'n cynnwys paru lleoliadau, lle mae ystyried hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol plentyn yn hanfodol i sicrhau parhad a chefnogi eu llesiant hirdymor.

Mae diwygiadau i brosesau cynllunio gofal, canllawiau lleoli, a phrosesau adolygu yn rhoi pwyslais cryfach ar lais y plentyn, sy'n cynnwys y gallu i blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg fynegi eu hunain yn eu dewis iaith. Mae rôl gryfach y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cefnogi hyn ymhellach drwy roi cyfle i anghenion y Gymraeg gael eu monitro, eu cofnodi, a'u hystyried yn gyson drwy gydol y daith ofal.

Mae canllawiau gwell ar gyfer darparu sefydlogrwydd lleoliadau a rheoli symudiadau lleoliad hefyd yn gyfle allweddol i gefnogi parhad o ran y Gymraeg. Mae sicrhau bod anghenion iaith yn cael eu hystyried pan fydd lleoliadau'n newid yn gallu helpu i leihau tarfu ar ddatblygiad ieithyddol y plentyn, yn ogystal â helpu i gynnal cysylltiadau diwylliannol pwysig.

Mae'r cynigion sy'n ymwneud â gofal gan berthynas a maethu, gan gynnwys trefniadau adolygu ac ymweld mwy cymesur a hyblyg, yn cefnogi dull gweithredu sydd â mwy o ffocws ar yr unigolyn, gan alluogi ymateb mwy priodol i anghenion ieithyddol a diwylliannol unigol. Gall y newidiadau hyn helpu i gynnal lleoliadau o fewn teuluoedd a chymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gefnogi plant i aros mewn amgylcheddau lle mae eu hiaith a'u hunaniaeth yn cael eu deall a'u meithrin. Gall mwy o eglurder ynghylch trefniadau maethu a chymorth ariannol hefyd helpu i gynnal lleoliadau Cymraeg eu hiaith dros gyfnod o amser, gan gyfrannu at gapasiti o fewn cymunedau lleol.

Mae cyflwyno dull gweithredu mwy cyson ar gyfer cynllunio cymorth gwarcheidiaeth arbennig, gan gynnwys defnyddio templedi cenedlaethol, yn rhoi cyfle clir i sicrhau bod anghenion y Gymraeg yn cael eu nodi'n systematig a'u hystyried fel rhan o brosesau asesu, cynllunio, ac adolygu ar draws Cymru.

Hefyd, mae'r pwyslais cryfach ar weithio amlasiantaethol yn cefnogi dull gweithredu mwy cydgysylltiedig ar gyfer diwallu anghenion Cymraeg ar draws gwasanaethau, gan gynnwys gofal cymdeithasol, addysg, ac iechyd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod ystyriaethau iaith wedi eu hymgorffori ar draws y system gyfan yn hytrach nag yn cael sylw ar wahân, gan helpu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog a diwylliannol priodol.

Bydd creu adran bwrpasol ar rianta corfforaethol yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch eu rôl fel rhieni corfforaethol. Wrth fod yn rhiant corfforaethol, rhaid i'r awdurdod lleol ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant sy'n derbyn gofal, canfod a rhoi sylw i'w barn, a'u paratoi a'u cefnogi ar gyfer dod yn oedolion, gan gynnwys pan fyddant yn gadael gofal. I blant a phobl ifanc sy'n siarad Cymraeg, mae hynny'n cynnwys eu cefnogi i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith. Mae'r newidiadau arfaethedig yn cynnwys sefydlu paneli rhianta corfforaethol, darparu gwybodaeth a chymorth, a dangos cynnydd wrth weithredu cynigion rhianta corfforaethol. Mae pob un o'r meysydd yn darparu cyfle gwerthfawr i ymgorffori ystyriaethau Cymraeg yn eu gweithgarwch gweithredu.

- **Cryfhau pwysigrwydd llais y plentyn:** Fel yr amlinellir uchod o dan brosesau gofal a chynllunio ac adolygu – nod y newidiadau yw cryfhau pwysigrwydd gwranddo ar lais y plentyn mewn gwahanol brosesau trwy gydol cod ymarfer Rhan 6. Yn ogystal â chryfhau eu llais yn gyffredinol, i blant sy'n siarad Cymraeg, mae hefyd yn cynnwys yr hawl i fynegi eu hunain yn eu dewis iaith.
- **Canllawiau cryfach ar gyfer symud lleoliadau a chynnal cyfarfodydd adolygu:** Mae'r newidiadau'n cyfeirio at sut y dylid trin eiddo personol plant sy'n derbyn gofal, gan osgoi defnyddio bagiau du ar gyfer symudiadau lleoli lle bo hynny'n bosibl. Yn ogystal â hynny, dylid ceisio osgoi cynnal cyfarfodydd adolygu yn ystod amseroedd gwersi. Dylid cysylltu'r pwyntiau a wnaed uchod â'r angen i wrando ar lais plant a phobl ifanc yn eu dewis iaith.

Yn olaf, roedd yr ymgynghoriadau'n cynnwys cwestiynau penodol sy'n gwahodd adborth ar effaith y cynigion ar y Gymraeg. Mae hynny'n dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynhwysiant ieithyddol, ac yn darparu mecanwaith i randdeiliaid dynnu sylw at gyfleoedd a risgiau.

Er nad yw'r cynigion yn cyflwyno dyletswyddau newydd penodol mewn perthynas â'r Gymraeg, maent yn darparu nifer o gyfleoedd i gryfhau'r cynnig gweithredol o wasanaethau Cymraeg yn ymarferol. Trwy ymgorffori ystyriaeth o iaith, diwylliant, a hunaniaeth ar draws gweithgarwch cynllunio gofal, penderfyniadau lleoli, a threfniadau cymorth, mae'r newidiadau arfaethedig yn cefnogi gallu plant, pobl ifanc, a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau yn eu dewis iaith a chynnal eu hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol.

3. Disgrifiwch ac esboniwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, gan egluro sut y byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg. **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu effeithiau negyddol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

Mae gan y cynigion y potensial i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg, yn enwedig yng nghyd-destun gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant. Mae gweithredu'r newidiadau ar draws gwasanaethau mabwysiadu, maethu, gofal gan berthynas, gwarcheidiaeth arbennig, ynghyd â rhianta corfforaethol, symudiadau, a lleoliadau, yn creu sawl cyfle i gryfhau gwelededd, hygyrchedd, a chynaliadwyedd y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Cafwyd ymatebion yn ymwneud â'r Gymraeg i'r ymgynghoriad. Bydd crynodeb llawn o'r ymatebion, sy'n cynnwys adborth ar y Gymraeg, yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r asesiad hwn.

Effaith ar siaradwyr Cymraeg o bob oed

Disgwylir i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar siaradwyr Cymraeg o bob oed, gan gefnogi nodau *Mwy na geiriau*, sef strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r Gymraeg ym maes iechydd a gofal cymdeithasol. Yn ganolog i hyn mae egwyddor y Cynnig Gweithredol, er mwyn sicrhau bod unigolion sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad at ofal, gwasanaethau, a chymorth yn Gymraeg heb orfod gofyn.

Mae cyfrifoldebau rhianta corfforaethol cryfach, ynghyd â gwell prosesau cynllunio, lleoli, ac adolygu gofal, yn darparu mwy o gyfle i gydnabod ac ymateb i anghenion ieithyddol yr unigolyn. Yn benodol, mae'r pwyslais cynyddol ar lais y plentyn o fewn Cod Ymarfer Rhan 6 diwygiedig yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu mynegi eu hunain yn eu dewis iaith, sy'n hanfodol ar gyfer cyfathrebu effeithiol, sicrhau llesiant emosiynol, a chynnal hunaniaeth ddiwylliannol. Gall y ffocws ar

sefydlogrwydd lleoliad, sefydlogrwydd cynnar, a threfniadau gofal lleol neu gan berthynas hefyd helpu unigolion i aros o fewn teuluoedd a chymunedau Cymraeg eu hiaith, gan gefnogi parhad yn y defnydd o iaith.

Mae dulliau gweithredu mwy cyson ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth maethu, mabwysiadu, a gwarcheidiaeth arbennig, gyda chefnogaeth dull gweithredu cryfach ar gyfer rhianta corfforaethol ar draws sefydliadau, yn creu cyfleoedd pellach i sicrhau bod anghenion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu nodi, bod cynigion gweithredol ar waith, a bod hyn yn cael ei ymgorffori drwy gydol prosesau asesu, cynllunio, ac adolygu, gan helpu i wella mynediad at wasanaethau Cymraeg a chynnal hunaniaeth Gymraeg a diwylliannol ar draws pob grŵp oedran.

Cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith

Trwy wella hygyrchedd a hyblygrwydd trefniadau gofal, yn enwedig o fewn cyd-destunau gofal gan berthynas a maethu, mae'r cynigion yn helpu teuluoedd i aros yn eu cymunedau. Trwy rianta corfforaethol, mae'n ymwneud ag awdurdodau lleol sy'n gweithio gyda phartneriaid yn y gymuned ehangach i gefnogi a darparu cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal. Mewn ardaloedd Cymraeg, gall hynny helpu i gynnal y defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd teuluol a chymunedol. Mae'r pwyslais ar leoli plant yn agos at adref ac o fewn rhwydweithiau cyfarwydd yn cyd-fynd â nodau *Cymraeg 2050* i gryfhau cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Effaith ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr

Er nad yw'r cynigion yn ymdrin ag addysg yn uniongyrchol, mae'r gwaith i gryfhau rhianta corfforaethol ledled Cymru yn cysylltu ag addysg trwy egwyddor benodol ar ddarparu addysg dda sydd wedi'i chynnwys yn y [Siarter Rhianta Corfforaethol](#).

Mae'r cynigion yn eu cyfanrwydd yn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn anuniongyrchol trwy hyrwyddo sefydlogrwydd mewn lleoliadau a lleihau tarfu ar fywydau plant mewn gofal. Gall lleoliadau sefydlog o fewn teuluoedd neu gymunedau Cymraeg eu hiaith helpu i sicrhau parhad mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chefnogi dysgwyr Cymraeg o bob oed.

Effaith ar wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg

Mae'r cynigion yn effeithio'n bennaf ar swyddogaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, gan gynnwys rhianta corfforaethol, cynllunio gofal, lleoliadau, a threfniadau maethu, mabwysiadu, a gwarcheidiaeth arbennig. Er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael yn Gymraeg, bydd yn bwysig ymgorffori ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, gan gynnwys *Mwy na geiriau*, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cryfhau'r Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, o fewn y gwasanaethau a ddarperir, arferion gweithlu, ac o ran gweithredu canllawiau.

Yn ganolog i'r strategaeth *Mwy na geiriau*, mae'r Cynnig Gweithredol sy'n sicrhau bod plant, pobl ifanc, a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael mynediad at ofal a chymorth yn Gymraeg heb orfod gofyn. Mae'r ffocws cryfach ar brosesau rhianta corfforaethol, cynllunio gofal, ac adolygu yn darparu cyfle i ymgorffori'r egwyddor hon yn ymarferol, yn enwedig trwy sicrhau bod cyfathrebu, adolygiadau, ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd yn gallu digwydd yn eu dewis iaith.

Mae'r cynigion hefyd yn cefnogi argaeledd gwasanaethau Cymraeg trwy ddulliau gweithredu mwy cyson a strwythuredig ar gyfer cynllunio lleoliadau, prosesau maethu a mabwysiadu, a chynllunio cymorth gwarcheidiaeth arbennig. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod cynlluniau gofal, cynlluniau cymorth, a dogfennaeth gysylltiedig ar gael yn ddwyieithog, a bod anghenion iaith yn cael eu nodi ac yn cael ymateb priodol trwy gydol y prosesau asesu, cynllunio, ac adolygu.

Mae pwysigrwydd yr angen i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ymysg staff yn thema allweddol yn y strategaeth. Bydd yn bwysig cefnogi ymarferwyr i fagu hyder a gallu wrth ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg er mwyn sicrhau y gellir gwireddu'r Cynnig Gweithredol yn ymarferol, yn enwedig lle mae rhianta corfforaethol cryfach a gweithio amlasiantaethol yn gofyn am ddarparu gwasanaethau cyson a chydgyssylltiedig.

Mae cyrsiau Cymraeg ar gael i staff yn y sector iechyd a gofal, gan gynnwys cyrsiau meithrin hyder a chysiau rhagarweiniol. Mae staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i wella eu sgiliau Cymraeg.

Sicrhau Ymwybyddiaeth a Mynediad

Er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau Cymraeg, ac yn cael cynnig gwasanaethau a chymorth yn yr iaith honno, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Hyrwyddo opsiynau gwasanaeth dwyieithog mewn modd clir ym mhob deunydd ar gyfer y cyhoedd, gan gynnwys cynnig gweithredol o wasanaethau Cymraeg.
- Sicrhau bod awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaeth yn cyfathrebu ac yn cynnig gwasanaethau yn Gymraeg, yn hytrach na bod defnyddwyr gwasanaeth yn gorfod gofyn.
- Sicrhau bod teuluoedd ac unigolion Cymraeg eu hiaith yn gallu rhannu eu profiadau yn Gymraeg.

Mae tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg, ymarferwyr, a grwpiau buddiant, megis adborth gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac AFKA Cymru, wedi helpu i lywio'r gwaith o ddatblygu'r cynigion hyn. Fodd bynnag, bydd ymgysylltu pellach â theuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n siarad Cymraeg yn cryfhau'r asesiad, gan helpu i nodi bylchau penodol yn y ddarpariaeth.

Mesur Llwyddiant

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy'r canlynol:

- Mwy o fynediad at wasanaethau yn Gymraeg ar draws yr holl wasanaethau sydd wedi eu cynnwys yn y newidiadau hyn i'r codau ymarfer.
- Adborth cadarnhaol gan ddefnyddwyr gwasanaeth Cymraeg eu hiaith.
- Mwy o gysondeb wrth ddarparu gwasanaethau dwyieithog ledled Cymru.
- Gwell canlyniadau i blant a theuluoedd, gan gynnwys y rheini mewn teuluoedd a chymunedau Cymraeg eu hiaith.